**Rhif: WG51731**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ymgynghoriad ar Gymalau Gweithiau Cyhoeddus Cymdeithasol: Cymalau enghreifftiol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

Mawrth 2026

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN: **978-1-83745-378-8**

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Gymalau Gweithiau Cyhoeddus Cymdeithasol drafft: Cymalau enghreifftiol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, ac ymateb Llywodraeth Cymru.

## Camau Gweithredu Angenrheidiol

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Y Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau

Yr Is-adran Caffael Masnachol

Y Tîm Deddfwriaeth Caffael

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmgynghoriadCaffaelCymdeithasolGyfrifolCyhoeddus@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori: Cymalau Gweithiau Cyhoeddus Cymdeithasol drafft | LLYW.CYMRU

# Cynnwys

Cyflwyniad a'r broses ymgynghori........................................................................ 4
Ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru....................................... 6
Y camau nesaf ............................................................................................... 21

## Cyflwyniad a'r broses ymgynghori

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (“Deddf 2023”) yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus a restrir yn Atodlen 1 (awdurdodau contractio) wneud caffael cyhoeddus mewn ffordd sy’n gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae Adran 27 o’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i weinidogion Cymru gyhoeddi cymalau enghreifftiol ar gyfer contractau adeiladu mawr (“cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol”) wedi’u cynllunio i sicrhau’r gwelliannau i lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn y categorïau a ganlyn:

- Taliadau
- Cyflogaeth
- Cydymffurfedd
- Hyfforddiant
- Is-gontractio
- Yr amgylchedd

Y ddyletswydd a roddir ar Awdurdodau Contractio yn y Ddeddf yw

- rhoi sylw i'r cymalau cyhoeddedig
- wrth gynllunio a chynnal y gweithdrefnau cyn dyfarnu’r contract, ystyried a ddylai'r contract gynnwys y cymalau cyhoeddedig
- wrth negodi a dyfarnu’r contract, cymryd pob cam rhesymol i gynnwys y cymalau cyhoeddedig a sicrhau y gellir gweithredu'r cymalau cyhoeddedig
- wrth reoli'r contract, cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y cymalau cyhoeddedig sydd wedi'u cynnwys yn y contract yn cael eu gweithredu

Rhaid i Awdurdodau Contractio hysbysu Gweinidogion Cymru:

- os nad yw'r awdurdod yn bwriadu cynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol er ei fod wedi ystyried pa un ai i wneud hynny
- os nad oes cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol wedi eu cynnwys yn y contract er bod yr awdurdod wedi cymryd pob cam rhesymol
- os nad oes unrhyw broses ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu er bod yr awdurdod wedi cymryd pob cam rhesymol
- os nad oes unrhyw broses ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu pan fo’r contract yn cael ei is-gontractio er bod yr awdurdod wedi cymryd pob cam rhesymol

Gofynnodd yr ymgynghoriad am safbwyntiau ynghylch a fyddai'r cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol drafft yn cyflawni’r gofynion a amlinellir yn y ddeddfwriaeth. Gwahoddwyd adborth hefyd ar yr effaith bosibl ar y Gymraeg a chyfleoedd i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol.

Cafodd Llywodraeth Cymru 29 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Cafwyd ymateb arall nad oedd yn dilyn fformat yr ymgynghoriad, ond mae'r sylwadau wedi cael eu hystyried drwy gydol y ddogfen.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a hoffai ddiolch i'r rhai a ymatebodd.

## Ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymatebion Llywodraeth Cymru

Roedd yr ymgynghoriad wedi'i rannu yn gwestiynau gorfodol a chwestiynau dilynol a oedd yn gofyn am wybodaeth ychwanegol os oedd yr ymatebydd wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf â phob cwestiwn. Hefyd, roedd tri chwestiwn ynglŷn â'r Gymraeg.

### 1. Taliadau

**C1a:** I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y "cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol" enghreifftiol yn bodloni'r gofynion o dan adran 27 o'r Ddeddf mewn perthynas â Thaliadau – "Sicrhau a gorfodi taliadau prydlon"?

**C1b:** Os mai anghytuno neu anghytuno'n gryf oedd eich ateb i Gwestiwn 1a, esboniwch pam nad yw'r cymalau yn bodloni'r gofyniad yn eich barn chi.

### Crynodeb o'r ymatebion

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn rhanedig gyda 10 o'r 29 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn,

ac 11 o ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cwestiwn.

Roedd wyth ymatebydd wedi nodi nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno neu wedi gadael yr ateb yn wag.

Cafwyd 16 o sylwadau ac anfonodd un ymatebydd gyfraniad nad oedd wedi'i deilwra i'r cwestiynau.

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn adlewyrchu safbwyntiau cymysg am y darpariaethau mewn perthynas â thaliadau.

Mynegodd rhai ymatebwyr frwdfrydedd dros y cymalau mewn perthynas â Thaliadau. Roedd eraill, er eu bod yn gadarnhaol, wedi awgrymu diwygiadau a fyddai, yn eu barn nhw, yn ei gwneud yn haws rhoi'r cymalau ar waith yn ymarferol, gan gynnwys newid geiriau fel "gallai" i "rhaid" a dileu geiriau fel "rhesymol" mewn perthynas â'r dystiolaeth y gofynnir amdani. Teimlwyd y gallai hyn helpu i gau unrhyw fylchau a fyddai'n galluogi contractwyr i osgoi rhwymedigaethau'r cymalau. Gwnaed awgrymiadau i dynhau'r iaith ynghylch amserlenni ar gyfer trefnu Cyfrif Banc Prosiectau, oherwydd gallai caniatáu oedi sylweddol olygu bod y cymalau hyn yn aneffeithiol. Mynegwyd pryderon hefyd am fecanweithiau optio allan ar gyfer is-gontractwyr, ac a allai'r rhain alluogi contractwyr i roi pwysau arnynt i optio allan. Gofynnwyd cwestiynau hefyd am weithredoedd ymuno a sut y caiff y rhain eu defnyddio ar hyn o bryd. Awgrymwyd dulliau gweithredu amgen. Roedd rhai ymatebwyr, ar y llaw arall, yn poeni bod y cymalau yn rhy gyfyngol o ran atal taliadau mewn cadwyni cyflenwi heb dystiolaeth bod is-gontractwyr wedi cael eu talu. Mae rhywfaint o'r pryder hwn yn ymwneud â'r graddau y bydd angen i gleientiaid gael tystiolaeth o daliadau mewn cadwyni cyflenwi cyn rhyddhau arian i brif gontractwyr.

Er bod llawer o ymatebwyr yn croesawu'r darpariaethau mewn egwyddor, cododd sawl un ohonynt bryderon am y llwyth gwaith i reolwyr prosiectau mewn Awdurdodau

Contractio, am fod diwydrwydd dyladwy ar daliadau drwy gadwyni cyflenwi wedi cael ei ddirprwyo i gontractwyr yn flaenorol, a'r amser a gymerir i drefnu'r Cyfrifon Banc Prosiectau.

Awgrymwyd hefyd y gellid cyfuno Cyfrifon Banc Prosiectau a Chyfrifon Banc Symiau Dargadw i greu un cyfrif banc er mwyn symleiddio prosesau gweinyddol, ac y dylid gwneud darpariaeth ar gyfer hyn yn y cymalau gan y byddai hyn yn symleiddio prosesau gweinyddol ym marn rhai ymatebwyr. Mynegwyd pryderon am weithrediad Cyfrifon Banc Symiau Dargadw a ph'un a ydynt yn darparu ar gyfer talu is-gontractwyr yn amserol. Un o'r pryderon mwyaf arwyddocaol am Gyfrifon Banc Symiau Dargadw oedd y gallent fod yn adnodd mwy cymhleth nag sydd ei angen ar gyfer contractau gwerth is sy'n agosach at y trothwy o £2m. Gofynnwyd cwestiynau hefyd am allu awdurdod contractio i gadw'n ôl unrhyw symiau dargadw i'w dychwelyd os bydd unrhyw ddiffygion. Mynegwyd pryderon hefyd am fondiau symiau dargadw sy'n cynnwys y baich gweinyddol, eu budd ar gyfer contractau gwerth is, argaeledd, costau sefydlu a dibynadwyedd.

Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd digon o hyblygrwydd i ddefnyddio datrysiadau digidol newydd, yn lle cyfrifon banc traddodiadol, i ddiogelu arian prosiectau a gwneud taliadau cyflym mewn cadwyni cyflenwi. Nododd un ymatebydd y gall tryloywder gwybodaeth am daliadau drwy gydol cadwyni cyflenwi wrth ddefnyddio Cyfrifon Banc Prosiectau ddarparu mwy o wybodaeth ar gyfer contractwyr haen uwch nag a fyddai ar gael pan gaiff trefniadau ariannol ar wahân eu gwneud ar bob lefel. Awgrymwyd y gallai hyn egluro pam mae is-gontractwyr yn amharod i gofrestru eu cadwyni cyflenwi eu hunain, ynghyd â'r risgiau o broblemau a gaiff eu hachosi gan wallau dogfennu ar bob lefel mewn cadwyn gyflenwi.

Gofynnodd sawl ymatebydd am gysondeb rhwng y cymalau hyn a chanllawiau presennol a nodir yn Nodyn Polisi Caffael Cymru 011, sy'n eithrio prosiectau sy'n para 6 mis neu lai, neu pan gaiff 70% o'r contract ei gyflawni'n gyfan gwbl gan y prif gontractwr, rhag gorfod cael Cyfrif Banc Prosiectau. Gofynnodd ymatebwyr eraill am eglurhad ynghylch a yw'r trothwy o £2m yn gymwys i gytundebau fframwaith eu hunain, pob trefniant yn ôl y gofyn, neu drefniadau yn ôl y gofyn uwchlaw'r trothwy o £2m yn unig a ph'un a yw'r diwygiadau yn gweithio o fewn pob Opsiwn NEC.

Cafwyd cais hefyd i gynnwys sancsiynau yn erbyn contractwr sydd, ar ôl cytuno i'r cymalau, yn torri ei rwymedigaeth.

Cafodd pryderon eu codi gan y rhai a oedd yn teimlo bod y cymalau yn galw am ymgysylltu uniongyrchol rhwng cleientiaid ac is-gontractwyr, a bod hyn yn mynd y tu hwnt i drefniadau cytundebol a threfniadau rheoli contractau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod pryderon cyferbyniol gan ymatebwyr. Diben y cymalau hyn yw cyflawni tri phrif nod. Y cyntaf yw sicrhau bod taliadau’n cael eu gwneud i is-gontractwyr mor gyflym â phosibl; yr ail yw diogelu cadwyni

cyflenwi os bydd y prif gontractwr yn dod yn ansolfent; a'r trydydd yw gwneud taliadau cadwyni cyflenwi yn fwy tryloyw.

Awgrymodd rhai y caiff newidiadau drafftio eu gwneud yn y cymalau cyhoeddedig i sicrhau eu bod yn cyflawni bwriad y polisi. Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau lle caiff y gair “gallai” ei newid i “rhaid”, rhagor o fanylion i ddiffinio “*not reasonably able*”, rhagor o fanylion i ddiffinio pryd na chaiff Bond ei alw, a rhagor o fanylion i sicrhau cysondeb â diffiniadau rolau NEC. Nid yw rhaid newidiadau a argymhellwyd wedi cael eu gwneud pan ystyrid nad oedd eu hangen, neu pan fyddai newidiadau o’r fath wedi gwrthdaro â pholisïau enghreifftiol eraill neu fwriad y polisi.

Yn dilyn pryderon am sefydlu a gweinyddu Cyfrifon Banc Symiau Dargadw, bydd y cymalau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio'r cyfrifon hyn yn cael eu dileu. Er bod y Cymalau Cyfrifon Banc Symiau Dargadw wedi cael eu dileu, bydd y Cymalau Gweithiau Cyhoeddus Cymdeithasol yn cael eu diwygio i sicrhau bod yr wybodaeth berthnasol am daliadau dargadw i is-gontractwyr yn cael ei rhoi i’r Awdurdod Contractio. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fynd i’r afael â’r problemau mewn perthynas â symiau dargadw mewn cadwyni cyflenwi. Mae angen rhagor o waith yn y maes hwn.

Ystyriwyd hefyd y sylwadau a wnaed a oedd yn gofyn a ellid diwygio'r cymalau i'w gwneud yn haws i Gyfrifon Banc Prosiectau a Chyfrifon Banc Symiau Dargadw gael eu dal yn yr un cyfrif. Fodd bynnag, gallai hyn gael effaith negyddol ar y gallu i weithredu'r ddau gyfrif yn briodol, gydag arian o'r Cyfrif Banc Symiau Dargadw yn cael ei ddefnyddio o bosibl i gwmpasu diffygion sy'n deillio o hysbysiad talu llai, a fyddai'n arwain at ddiffyg arian yn y cyfrif. Byddai'n anos hefyd dyrannu unrhyw fuddiannau'n briodol. Yn hytrach, caiff cymalau amgen eu cynnwys sy'n nodi'r gofynion ar gyfer dal a rhyddhau symiau dargadw cyn gynted â phosibl. Mae'r cymalau newydd yn darparu ar gyfer naill ai ddefnyddio Bond, neu gymalau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ryddhau symiau dargadw mewn da bryd.

Er y caiff y cymalau mewn perthynas â Chyfrifon Banc Symiau Dargadw eu dileu, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig o hyd i fynd i'r afael â symiau dargadw mewn cadwyni cyflenwi, gan anelu at sicrhau, i'r graddau sy'n bosibl, bod symiau dargadw yn cael eu diogelu a'u bod yn cael eu rhyddhau mewn da bryd i gontractwyr ac is-gontractwyr. Mae angen gwneud mwy o waith i archwilio darpariaethau i glustnodi symiau dargadw, a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i archwilio amrywiaeth o fecanweithiau a fydd yn cyflawni hyn.

Rhoddwyd ystyriaeth ofalus hefyd i wneud darpariaeth yn y cymalau ar gyfer datrysiadau digidol newydd a allai gael eu defnyddio yn lle Cyfrif Banc Prosiectau (neu Gyfrif Banc Symiau Dargadw yn y dyfodol). Er na chaiff y cymalau hyn eu diweddaru yn hyn o beth ar hyn o bryd, rydym yn cydnabod bod datrysiadau digidol yn datblygu’n gyflym ac yn debygol o chwarae rôl bwysig wrth sicrhau taliadau prydlon yn y tymor hir.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn cynnal cynllun peilot i archwilio i ymarferoldeb Cyfrifon Taliadau Cyfochrog Digidol a Chyfrifon Banc Prosiectau Digidol. Bydd y gwaith yn dod i ben yn y misoedd nesaf. Ni fyddai'n briodol inni wneud sylwadau ar y broses na'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r gwaith hwnnw. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r canlyniadau pan fyddant ar gael a'u defnyddio i lywio ein penderfyniadau polisi yn y dyfodol.

Ni fydd y cymalau yn atal awdurdod contractio rhag defnyddio datrysiad digidol yn lle Cyfrif Banc Prosiectau, ond byddai angen i awdurdod contractio anfon hysbysiad at Weinidogion Cymru os na chaiff Cyfrif Banc Prosiectau ei ddefnyddio a bydd angen iddo fodloni ei hun, a'r Gweinidogion, bod y datrysiad yn bodloni'r gofynion ar gyfer taliadau diogel, cyflym, tryloyw sydd wedi'u clustnodi mewn cadwyni cyflenwi.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryderon am yr amser a gymerir i drefnu Cyfrif Banc Prosiectau a'r effaith ar adnoddau. Drwy ddileu'r gofyniad i drefnu a gweinyddu Cyfrif Banc Symiau Dargadw, dylai hynny ei gwneud yn bosibl i adnoddau gael eu cyfeirio'n well at Gyfrifon Banc Prosiectau. Dylid nodi hefyd fod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf i symleiddio, safoni a chyflymu'r prosesau hyn, ac mae hyn wedi arwain at ddarparwyr enwebedig sy'n golygu y gall deiliaid cyfrifon fod yn siŵr eu bod yn cael lefel uchel o gymorth ac arbenigedd wrth sefydlu eu Cyfrifon Banc Prosiectau (gweler WPPN 010 a WPPN 011). Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro hyn. Yn ogystal, lle bo angen llofnodion i sefydlu Gweithredoedd, gallai awdurdodau contractio geisio cyflymu a symleiddio'r broses drwy ddefnyddio meddalwedd llofnodion electronig a gymeradwywyd at ddibenion o'r fath.

Mewn ymateb i'r sylwadau am gysondeb rhwng y cymalau hyn a WPPNs presennol ar Gyfrifon Banc Prosiectau, a chynnwys rhai eithriadau mewn perthynas â Chyfrifon Banc Prosiectau yn y cymalau; dylid nodi bod y sbardun ar gyfer y cymalau hyn wedi'i bennu yn y Ddeddf ei hun, h.y. ar gyfer pob contract adeiladu uwchlaw £2m. Felly, ni chaiff y cymalau eu diwygio i gynnwys eithriadau penodol, a chaiff pob WPPN ei adolygu a'i ddiwygio, lle bo angen, i adlewyrchu newidiadau a wnaed drwy ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf a chymalau cyhoeddedig.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd am fecanweithiau optio allan Cyfrifon Banc Prosiectau, mae'r cymalau yn sicrhau y bydd Awdurdodau Contractio yn gallu gweld y rhesymau pam mae unrhyw is-gontractwyr yn penderfynu peidio ag ymuno â Chyfrif Banc Prosiectau ac asesu a oes unrhyw dystiolaeth o orfodaeth.

Mewn ymateb i bryderon am ba mor weladwy yw taliadau mewn cadwyni cyflenwi, dylid nodi bod y cymalau yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau contractio fod yn unig ddeiliaid cyfrifon neu fod yn rhaid i Awdurdodau Contractio a chontractwyr fod yn gyd-ddeiliaid Cyfrifon Banc Prosiectau, er mwyn sicrhau gwelededd. Mae pryderon am ormod o welededd o ran taliadau ar bob haen yn y gadwyn gyflenwi wedi cael eu nodi a chânt eu monitro wrth i'r cymalau ddechrau cael eu defnyddio ac wrth i ddatrysiadau digidol amgen gael eu hystyried. Mae Cyfrifon Banc Prosiectau wedi cael eu defnyddio am amser maith heb i'r pryder hwn gael ei godi.

Mewn ymateb i geisiadau am eglurhad ynghylch a yw'r trothwy o £2 miliwn yn berthnasol i'r cytundebau fframwaith eu hunain a threfniadau yn ôl y gofyn, bydd y Canllawiau Statudol yn cael eu diweddaru i roi'r eglurhad hwn.

Ni chaiff sancsiynau eu cynnwys yn y cymalau enghreifftiol ar gyfer contractwyr nad ydynt yn cynnwys y cymalau yn eu his-gontractau er ei bod yn ofynnol iddynt wneud hynny o dan eu contract â'r Awdurdod Contractio. Bydd gan Awdurdodau Contractio gymalau yn barod i ymdrin â thor-contract.

Nid yw'r cymalau yn cyflwyno unrhyw ymgysylltu uniongyrchol rhwng awdurdodau contractio ac is-gontractwyr, ac felly nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau mewn perthynas â'r pwynt hwn.

## 2. Cyflogaeth

**C2a:** I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y "cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol" enghreifftiol yn bodloni'r gofynion o dan adran 27 o'r Ddeddf mewn perthynas â Chyflogaeth **-** "Darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc, pobl hŷn, pobl ddi-waith hirdymor, pobl ag anableddau neu bobl a all fel arall fod o dan anfantais (er enghraifft oherwydd eu hil, eu crefydd neu eu cred, eu rhyw, eu hunaniaeth rhywedd neu eu cyfeiriadedd rhywiol)"?

**C2b:** Os mai anghytuno neu anghytuno'n gryf oedd eich ateb i Gwestiwn 2a, esboniwch pam nad yw'r cymalau yn bodloni'r gofyniad yn eich barn chi

### Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol gyda 15 o'r 29 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd chwe ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r chwestiwn.

Roedd wyth wedi nodi nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiwn neu heb ateb y cwestiwn.

Cafwyd 18 o sylwadau ac anfonodd un ymatebydd gyfraniad nad oedd wedi'i deilwra i'r cwestiynau.

Teimlai rhai ymatebwyr fod y dull gweithredu yn rhy gaeth a'i fod yn cynnig yr un ateb i bawb a gwnaethant ofyn a ellid addasu dulliau gweithredu presennol, fel Buddiannau Cymunedol, i gydymffurfio â'r gofynion newydd. Codwyd pryderon gan y rhai sy'n defnyddio system Themâu, Canlyniadau a Mesurau (TOMs) na fydd y prosesau hyn yn gydnaws o bosibl. Teimlai ymatebwyr eraill, ar y llaw arall, fod gormod yn cael ei adael i ddisgresiwn yr awdurdodau contractio, er enghraifft, mewn perthynas ag amserlenni adrodd; teimlai un ymatebydd y dylai'r cynllun cyflogaeth gael ei gynnwys wrth gyflwyno tendr. Awgrymwyd y byddai cwestiwn gorfodol ar y cam tendro yn ddefnyddiol, ac y gallai templed ar gyfer cynnwys posibl y cynllun gael ei gyhoeddi fel canllaw. Nododd ymatebwyr eraill y bydd gan asiantaethau

cyflogaeth rôl bwysig i'w chwarae yn y broses weithredu ac y bydd angen cydgysylltu a gwneud gwaith dilynol. Teimlai un ymatebydd y gellid rhoi mwy o bwyslais ar y rhai sydd bellaf o'r farchnad swyddi.

Cododd sawl ymateb bryderon am yr adnoddau rheoli contract ychwanegol y byddai eu hangen i gyflawni'r gwaith diwydrwydd dyladwy wrth fonitro gweithrediad y cymalau hyn, yn enwedig mewn is-gontractau. Cododd ymatebwyr eraill bryderon am y trothwy £2m ar gyfer cais, gan nodi y gallai fod gwrthdaro rhwng ymgysylltu â chadwyni cyflenwi lleol a chynnwys y rhwymedigaethau hyn. Nododd un ymatebydd fod cyflogaeth barhaus â chymorth yn ddymunol ond y gallai fod yn anodd ei chyflawni ym mhob cyd-destun

Roedd ymatebwyr eraill yn cytuno bod y cymalau hyn yn bodloni'r gofynion a nodir yn y Ddeddf a'i ffocws ar wella canlyniadau llesiant. Cafodd y cymal dewisol ar lofnodi'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ei groesawu gan ymatebwyr a gofynnodd un am i'r geiriau “and shall encourage that any sub-contractor will…” gael eu cynnwys yng nghymal 1.5. Gofynnodd ymatebwyr hefyd am i'r gwaith i lunio drafft newydd o'r Cod Moesegol gael ei gwblhau a bod y Cod yn cynnwys proses ar gyfer gwerthuso llofnodwyr er mwyn osgoi “teg galchu”. Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd y dylai awdurdodau contractio ofyn am ddata fel y gall cynlluniau i ddileu cymhlethdod y bylchau cyflog o ran hil, anabledd a rhywedd gael eu datblygu i brofi a yw'r cymal yn gweithio ai peidio.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad, codir pryderon am y gost a'r llwyth gwaith ychwanegol sy'n debygol o ddeillio o ganlyniad i fwy o waith diwydrwydd dyladwy wrth fonitro gweithrediad y cymalau hyn, i gleientiaid a chontractwyr. Dylid nodi y cafodd costau ychwanegol eu rhagweld a chafodd amcangyfrif o gostau ar gyfer cleientiaid a chontractwyr eu nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a gyhoeddwyd fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol wrth graffu ar y Ddeddf yn 2023.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y cymalau hyn yn ddigon hyblyg i'w cymhwyso'n gymesur i gontractau mwy o faint a'r rhai sy'n agos at y trothwy o £2m. Caiff mwy o wybodaeth ei chyhoeddi i helpu awdurdodau contractio a chontractwyr i lunio Cynllun Cyflogaeth fel y disgrifir yng nghymal cyflogaeth 1.4, a bydd y cymalau’n cael eu diwygio i alluogi’r Cynllun Cyflogaeth i gael ei gyflwyno cyn i’r contract ddechrau.

Mae'r cymal ar y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn ddewisol am nad yw wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'r categorïau gwelliannau yn Nhabl 1 yn y Ddeddf. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau i weithio ar God drafft newydd, ac ystyried sut i fonitro ei effeithiolrwydd yn well. Nid ystyrir bod angen y geiriad ychwanegol a awgrymwyd ar gyfer cymal 1.5, gan fod y Cod yn cynnwys disgwyl i is-gontractwyr ymrwymo i’r Cod. Nid yw cymalau ar fesur ac adrodd ar ddata ar fylchau cyflog wedi cael eu cynnwys oherwydd, o dan y Ddeddf, rhaid i bob cymal gael ei gymhwyso drwy gydol cadwyni cyflenwi, ac efallai na fydd hyn yn ddefnyddiol pan fo nifer bach o weithwyr, er enghraifft, is-gontractwyr bach iawn.

**3. Cydymffurfedd**

**C3a:** I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y “cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol” enghreifftiol yn bodloni'r gofynion o dan adran 3 o'r Ddeddf mewn perthynas â Chydymffurfedd – “Sicrhau cydymffurfedd â rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â hawliau cyflogaeth (gan gynnwys cyfraddau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol), iechyd a diogelwch, a chynrychiolaeth undebau llafur”?

**C3b:** Os mai anghytuno neu anghytuno'n gryf oedd eich ateb i Gwestiwn 3a, esboniwch pam nad yw'r cymalau yn bodloni'r gofyniad yn eich barn chi.

### Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol iawn, gydag 18 o'r 29 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd pedwar ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cwestiwn.

Roedd saith ymatebydd wedi nodi nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â’r cwestiwn neu heb ateb y cwestiwn.

Cafwyd 17 o sylwadau ac anfonodd un ymatebydd gyfraniad nad oedd wedi'i deilwra i'r cwestiynau.

Roedd ymatebwyr yn cydnabod yr angen am y cymalau hyn yn gyffredinol, ac roedd rhai yn croesawu'r dull gweithredu. Fodd bynnag, mynegodd rhai ohonynt bryderon ynglŷn ag ymarferoldeb, er enghraifft, yr hyn y bydd awdurdodau contractio yn ei wneud ag unrhyw ddata personol a gesglir i ddangos cydymffurfedd, goblygiadau GDPR, ac esboniad o'r rolau a'r cyfrifoldebau fydd eu hangen i gasglu data. Mynegwyd pryderon am gymhwyso'r cymalau hyn i gontractau gwerth is sy'n agos at y trothwy o £2m, o ganlyniad i gostau gweinyddol ychwanegol a diffyg adnoddau.

Nododd un ymateb y risgiau llafur sy'n rhan annatod o gadwyni cyflenwi deunyddiau adeiladu, a chroesawodd y cymal dewisol sy'n mynd i'r afael â hyn, gan nodi efallai na chaiff hyn ei flaenoriaethu, yn enwedig i ddechrau. Teimlai eraill y dylai'r rhwymedigaethau hyn o ran caethwasiaeth fodern a hawliau dynol fod yn orfodol, nid yn ddewisol. Awgrymodd un ymateb fod sawl proses gydymffurfedd yn bodoli o ran busnes a hawliau dynol y gellid eu cynnwys mewn canllawiau. Dywedodd ymatebwyr hefyd y dylai awdurdodau contractio ofyn am ddata fel y gall cynlluniau i ddileu bylchau cyflog o ran hil, anabledd a rhywedd gael eu datblygu i brofi a yw'r cymal yn gweithio ai peidio.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Cydnabyddir y bydd gweinyddu'r cymalau yn golygu gwaith ychwanegol, ond mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfedd drwy gydol cadwyni cyflenwi. Bydd angen i awdurdodau contractio a chontractwyr sicrhau cydymffurfedd â

deddfwriaeth GDPR a datblygu dull cymesur o gasglu'r data sydd eu hangen i sicrhau cydymffurfedd, gan ystyried gwerth contract a chymhlethdod y gadwyn gyflenwi. Mae'r cymalau yn gwneud darpariaeth i wybodaeth gael ei rhoi yn ddienw. Mae cymal 1.6 yn ddewisol. Mae'r rhwymedigaethau i gydymffurfio â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn gymwys i gwmnïau â throsiant o fwy na £36 miliwn, ac efallai na fydd safonau llafur ar y môr yn berthnasol i bob contract. Fel y cyfryw, mae'r gofyniad i'r Contractwr ddarparu cynllun sy'n amlinellu cydymffurfedd yn gymal dewisol. Yn yr un modd, efallai mai dim ond yn achos contractau a chontractwyr mawr y bydd data ar anabledd, hil a rhywedd yn ddefnyddiol.

Caiff mwy o wybodaeth ei chyhoeddi i helpu awdurdodau contractio a chontractwyr i wneud gwaith diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r cymalau hyn.

## 4. Hyfforddiant

**C4a:** I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y “cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol” enghreifftiol yn bodloni'r gofynion o dan adran 27 o'r Ddeddf mewn perthynas â Hyfforddiant – “Darparu hyfforddiant priodol i weithwyr”?

**C4b:** Os mai anghytuno neu anghytuno'n gryf oedd eich ateb i Gwestiwn 4a, esboniwch pam nad yw'r cymalau yn bodloni'r gofyniad yn eich barn chi.

### Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol gyda 15 o'r 29 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd pum ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â’r cwestiwn.

Roedd naw wedi nodi nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno neu heb roi ateb.

Cafwyd 16 o sylwadau gan ymatebwyr ac anfonodd un ymatebydd gyfraniad nad oedd wedi'i deilwra i'r cwestiynau.

Cafodd y cymalau hyn a'r bwriad y tu ôl iddynt eu croesawu gan sawl ymatebydd. Roedd rhai yn poeni am y gallu i'w cymhwyso'n gymesur i gontractau sy'n agosach at £2m mewn gwerth. Codwyd pryderon am ddiffyg adnoddau rheoli contract i ymgymryd â'r gwaith ychwanegol sydd ei angen i fonitro gweithrediad. Roedd eraill wedi gofyn sut y gallai'r cymalau hyn gael eu cysoni â system rheoli contractau TOMs a ddefnyddir gan lawer o awdurdodau contractio yng Nghymru, a sut y gellir eu holrhain drwy gadwyni cyflenwi. Os cânt eu cymhwyso heb hyblygrwydd, roedd pryderon y gallai hyn annog busnesau bach rhag dod yn is-gontractwyr o ganlyniad i gymhlethdod. Nododd sawl ymateb fod angen gwneud hyn mewn ffordd a gaiff ei llywio gan ganlyniadau yn hytrach na phroses.

Nododd un ymatebydd fod angen i gynlluniau hyfforddi gynnwys manylion am brentisiaethau a chynnydd, ac y dylai partneriaethau hyfforddi â sefydliadau eraill, gan gynnwys colegau, gael eu sefydlu fel rhan o strategaeth gaffael. Bydd hyn yn

helpu i sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gysylltu'n dda â swyddi gofynnol. Awgrymodd yr ymatebydd hwn y gellid llunio canllawiau pellach i egluro gofynion a safonau ac y dylai awdurdodau contractio gael eu hannog i gysylltu cerrig milltir o ran taliadau â chanlyniadau hyfforddi. Nododd ymatebwyr hefyd fod angen i weithwyr gwblhau hyfforddiant yn eu hamser eu hunain heb dâl yn aml ac awgrymwyd y dylai'r canllawiau fynd i'r afael â hyn. Nodwyd hefyd fod angen mynd i'r afael â gwelliannau mewn sgiliau hanfodol fel rhifedd, llythrennedd a sgiliau digidol, ac y byddai mynediad at gymorth gan Gynrychiolydd Dysgu Undeb yn ddefnyddiol.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Caiff mwy o wybodaeth ei chyhoeddi i helpu awdurdodau contractio a chontractwyr i wneud gwaith diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r cymalau hyn, gyda dolenni i ragor o wybodaeth er mwyn helpu i lunio cynlluniau hyfforddi. Efallai y bydd angen gweithio i sicrhau bod system TOMs, a systemau tebyg a ddefnyddir yng Nghymru, yn gyson â'r rhwymedigaethau yn y cymalau hyn. Lluniwyd y cymalau hyn fel y gellir eu cymhwyso'n hyblyg ac yn gymesur a'u teilwra i ofynion gwahanol pob contract. Bwriedir i'r cynlluniau hyn ganolbwyntio ar ganlyniadau ac na chânt eu llywio gan broses.

## 5. Is-gontractio

**C5a:** I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y "cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol" enghreifftiol yn bodloni'r gofynion o dan adran 27 o'r Ddeddf mewn perthynas ag Is-gontractio – "Darparu cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig a sefydliadau gwirfoddol i gyflawni gweithiau, cyflenwi cynhyrchion neu ddarparu gwasanaethau"?

**C5b:** Os mai anghytuno neu anghytuno'n gryf oedd eich ateb i Gwestiwn 5a, esboniwch pam nad yw'r cymalau yn bodloni'r gofyniad yn eich barn chi.

### Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol gydag 16 o'r 29 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd pum ymateb yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cwestiwn.

Roedd wyth ymatebydd wedi nodi nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno neu heb roi ateb.

Cafwyd 17 o sylwadau ac anfonodd un ymatebydd gyfraniad nad oedd wedi'i deilwra i'r cwestiynau.

Cafodd y cymalau hyn eu croesawu gan lawer o ymatebwyr, gyda nifer ohonynt yn nodi eu bod yn arferion cyffredin yn barod yn y diwydiant. Dywedodd un y dylai fod yn ofynnol i gontractwyr ddefnyddio is-gontractwyr a enwir mewn cais oni all yr is-gontractwyr eu hunain ymgymryd â'r gwaith neu os byddant yn gwrthod ymgymryd

â'r gwaith yn ddiweddarach. Mae eraill yn poeni am yr adnoddau rheoli contract sydd eu hangen i fonitro gweithrediad, yn enwedig ar brosiectau bach a thrwy haenau o is-gontractwyr. Codwyd pryderon am gymhwyso'r cymalau mewn ffordd gymesur, a theimlai un ymatebydd fod y cymalau yn rhy gaeth a chyfyngol.

Codwyd rhai pryderon am y diwygiadau i gymal NEC yn enwedig o safbwynt contractau Opsiwn A. Codwyd pryderon hefyd am ymarferoldeb cynnwys y cymalau hyn mewn contractau sy'n agos at £2m, a sut i annog BBaChau i ymrwymo i'r telerau ychwanegol hyn pan gall y rhai NEC safonol fod yn her yn barod. Teimlai un ymatebydd y dylid gofyn am y cynllun is-gontractio ar y cam tendro.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Lluniwyd y cymalau hyn i adeiladu ar arfer da sydd ar waith mewn llawer o awdurdodau contractio ac i'w gwneud yn ofynnol i gynnal dadansoddiad ymlaen llaw o'r cyfleoedd is-gontractio sy'n debygol o godi, ac sydd eisoes yn rhan o gadwyni cyflenwi sefydledig. Gellir gofyn am y cynlluniau hyn ar y cam tendro ond o dan y cymalau hyn, rhaid iddynt wedyn fod yn rhan o'r contract a chael eu monitro.

Lluniwyd y diwygiadau i'r cymal NEC i gael eu defnyddio ar gyfer pob opsiwn NEC ac i fod yn hyblyg ac yn gymesur wrth eu cymhwyso. Cydnabyddir y gallai costau ychwanegol godi yn sgil gwaith i fonitro gweithrediad y cymalau hyn, ond mae'r buddiannau yn cynnwys buddiannau economaidd, drwy ddarparu cyfleoedd penodol i fusnesau a chadwyni cyflenwi lleol.

## <u>6. Yr amgylchedd</u>

**C6a:** I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y “cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol” enghreifftiol yn bodloni'r gofynion o dan adran 27 o'r Ddeddf mewn perthynas â'r Amgylchedd – “Gwneud rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, defnyddio deunyddiau cynaliadwy, cydnerthedd rhag effaith newid hinsawdd, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, a gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth yn ofynnol”?

**C6b:** Os mai anghytuno neu anghytuno'n gryf oedd eich ateb i Gwestiwn 6a, esboniwch pam nad yw'r cymalau yn bodloni'r gofyniad yn eich barn chi.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol gyda 15 o'r 29 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd chwe ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cwestiwn.

Roedd wyth wedi nodi nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno neu heb roi ateb.

Cafwyd 13 o sylwadau gan ymatebwyr ac anfonodd un ymatebydd gyfraniad nad oedd wedi'i deilwra i'r cwestiynau.

Codwyd pryderon am gostau gweithredu, a diffyg adnoddau rheoli contract. Teimlai eraill fod y gofyniad yn rhy feichus ar gyfer contractau sy'n agosach at y trothwy o £2m, ac y bydd llawer o BBaChau, yn enwedig, yn cael anhawster â'r gwaith mesur a lefel y manylion sy'n ofynnol. Teimlwyd bod adnoddau o fewn awdurdodau contractio i ddilysu honiadau amgylcheddol yn bryder hefyd. Nododd rhai ymatebwyr fod angen i fesuriadau carbon fod yn brosiect-benodol a gofynnwyd am ragor o fanylion am fonitro, systemau a sicrwydd, a phennu targedau a throthwyon gofynnol.

Nododd un ymatebydd fod angen gweithredu ar frys i fynd i'r afael â dirywiad amgylcheddol a goblygiadau newid hinsawdd i gymunedau ledled y byd. Gofynnodd ymatebydd arall i'r geiriau “gwella'r amgylchedd naturiol.” yn 1.1 ac 1.2 gael eu newid i “amddiffyn a gwella…”.  Gofynnodd ymatebydd arall am ddiwygiadau i'r geiriad yn y canllawiau i fynd i'r afael â'r effaith fyd-eang yn well, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i beidio â defnyddio “gwrthbwyso” i liniaru risgiau, ac awgrymodd y dylai diwydrwydd dyladwy mewn cadwyni cyflenwi fod yn ofynnol. Codwyd materion penodol yn ymwneud â defnydd anghynaliadwy o bren a deunyddiau eraill.

Gofynnodd rhai ymatebwyr sut y byddai adroddiadau blynyddol yn gweithio ar gyfer contract bach a allai bara llai na blwyddyn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Cydnabyddir y gallai fod costau ychwanegol i gleientiaid a chontractwyr o ganlyniad i fonitro gweithrediad y cymalau hyn, ond bydd hyn yn sicrhau bod risgiau amgylcheddol yn cael eu nodi a'u trin a bod mwy o sylw yn cael ei roi drwy gydol cadwyni cyflenwi i leihau carbon, lleihau gwastraff, cyrchu moesegol, amddiffyn bioamrywiaeth a chydnerthedd rhag effaith newid hinsawdd. Caiff y geiriau “amddiffyniad” ac “amddiffyn” eu hychwanegu at gymalau 1.1 ac 1.2. Mae cwestiynau ynghylch ymarferoldeb contractau byr ac adrodd blynyddol arnynt eisiau yn derbyn sylw yng Nghymal 1.7, sy’n galluogi nodi cyfnodau adrodd “fel y’u pennir gan yr Awdurdod Contractio".

Caiff mwy o wybodaeth ei chyhoeddi i helpu awdurdodau contractio a chontractwyr i ddatblygu cynlluniau amgylcheddol a gwneud gwaith diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r cymalau hyn. Lluniwyd y cymalau i'w cymhwyso mewn ffordd hyblyg a chymesur; dylid defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na dull a gaiff ei lywio gan broses.

## <u>7. Gweithredu</u>

**C7a:** I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gall y “cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol” enghreifftiol gael eu gweithredu mewn is-gontractau?

**C7b:** Os mai anghytuno neu anghytuno'n gryf oedd eich ateb i Gwestiwn 7a, esboniwch pam na all y cymalau gael eu gweithredu yn eich barn chi.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn rhanedig gyda 12 o'r 29 o ymatebion yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r cwestiwn.

Roedd 11 o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cwestiwn

Roedd chwe wedi nodi nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno neu heb roi ateb.

Cafwyd 15 o sylwadau ac anfonodd un ymatebydd gyfraniad nad oedd wedi'i deilwra i'r cwestiynau.

Cafodd pryderon a godwyd mewn ymateb i gwestiynau eraill, yn enwedig cwestiwn 1, eu hailadrodd yn yr atebion hyn. Cafodd pryderon cyffredinol am yr adnoddau y byddai eu hangen i reoli gweithrediad y cymalau hyn mewn is-gontractau a chadwyni cyflenwi eu codi gan lawer o ymatebwyr, yn ogystal â phryderon am gontractau â gwerthoedd sy'n agosach at £2m. Mynegwyd pryder am ddibynnu ar adroddiadau contractwyr ac anawsterau wrth ddilysu honiadau, ynghyd â chyfrinachedd cofnodion contractwyr, a theimlai rhai ymatebwyr y byddai'n ddefnyddiol cyfyngu'r gofynion hyn i haenau penodol o'r gadwyn gyflenwi. Nodwyd mai dim ond rhwng haenau y mae cydberthnasau cytundebol yn gymwys, nid ar hyd cadwyni cyflenwi, sy'n ei gwneud yn anodd i awdurdodau contractio orfodi'r gofynion hyn.

Nododd rhai ymatebwyr y gallai gosod mwy o amodau ar is-gontractwyr atal rhai cynigwyr a/neu godi prisiau. Fod bynnag, nododd ymatebwyr eraill y byddai'r buddiannau hirdymor yn sgil mwy o ddiwydrwydd dyladwy mewn cadwyni cyflenwi yn drech nag unrhyw gost fyrdymor.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gost a'r llwyth gwaith ychwanegol sy'n debygol o ddeillio o ganlyniad i fwy o waith diwydrwydd dyladwy wrth fonitro gweithrediad y cymalau hyn, i gleientiaid a chontractwyr. Mae'r camau i ddileu'r cymalau mewn perthynas â Chyfrifon Banc Symiau Dargadw yn mynd i'r afael â rhai o'r pryderon ynghylch yr adnoddau sydd eu hangen i fodloni'r gofynion talu'n brydlon. Dylid nodi y cafodd costau ychwanegol eu rhagweld a chafodd amcangyfrif o gostau ar gyfer cleientiaid a chontractwyr eu nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a gyhoeddwyd fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol wrth graffu ar y Ddeddf yn 2023.

Ni fyddai cyfyngu diwydrwydd dyladwy i haenau penodol o'r gadwyn gyflenwi yn gyson â'r Ddeddf, a chyfrifoldeb contractwyr yw sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth berthnasol a gofynion cytundebol. Nid yw hyn yn dod i ben ar haen benodol o'r gadwyn gyflenwi. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod angen i ddisgwyliadau o ran diwydrwydd dyladwy mewn cadwyni cyflenwi fod yn gymesur pan fo cadwyni cyflenwi yn ymestyn dramor.

## 8. Mathau o Gontract

**C8a:** I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gall y “cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol” enghreifftiol gael eu defnyddio mewn mathau o gontract a ddefnyddir yn gyffredin h.y. Contract Peirianneg Newydd (NEC), Tribiwnlys Cyd-gontractau (JCT)?

**C8b:** Os mai anghytuno neu anghytuno'n gryf oedd eich ateb i Gwestiwn 8a, esboniwch pam na all y cymalau drafft gael eu defnyddio mewn mathau eraill o gontract i gyflawni bwriad y polisi yn eich barn chi.

### Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol iawn gyda 19 o'r 29 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd tri ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â’r cwestiwn.

Roedd saith wedi nodi nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno neu heb roi ateb.

Cafwyd 12 o sylwadau ac anfonodd un ymatebydd gyfraniad nad oedd wedi'i deilwra i'r cwestiynau.

Roedd y sylwadau a ddaeth i law yn cynnwys ymatebwyr a oedd yn teimlo y gellir defnyddio'r cymalau ochr yn ochr â mathau safonol o gontract, ond roedd eraill yn awgrymu y byddai hyn yn anodd a bod angen gwneud mwy o waith i ystyried integreiddio, yn enwedig o safbwynt talu a modelau talu Opsiwn A. Cododd un ymateb bryder am y baich ychwanegol ar reolwyr prosiect sy'n gweithredu'r mathau hyn o gontract ar hyn o bryd.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae cymalau enghreifftiol annibynnol wedi cael eu cyhoeddi yn ogystal â chymalau wedi’u llunio i gael eu defnyddio gyda chymau JCT ac NEC. Bydd y rhain yn cael eu diwygio i fynd i’r afael â materion wedi’u codi yn yr ymgynghoriad hwn.

Mae’r diwygiadau i’r cymalau enghreifftiol wedi cael eu llunio i gael eu defnyddio gydag opsiynau JCT a’r holl opsiynau NEC, ac maent yn galluogi cais i fod yn hyblyg ac yn gymesur.

Bydd rhai newidiadau’n cael eu gwneud i’r cymalau enghreifftiol i gael eu defnyddio gydag NEC a JCT.

Hefyd, dylid nodi y bydd y cymalau newydd sydd i’w cynnwys yn lle’r cymalau RBA yn cael eu llunio i gyd-fynd â chontractau annibynnol a chontractau NEC a JCT, a bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r defnydd a wneir o'r cymalau hyn ac yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a all godi.

## <u>9. Nodiadau Esboniadol</u>

**C9a:** I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y Nodiadau Esboniadol a ddarparwyd ar gyfer y “cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol” enghreifftiol yn ddigonol ac yn ddefnyddiol?

**C9b:** Os mai anghytuno neu anghytuno'n gryf oedd eich ateb i Gwestiwn 9a, esboniwch pam nad yw'r Nodiadau Esboniadol yn ddigonol nac yn ddefnyddiol yn eich barn chi.

### Crynodeb o'r ymatebion

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn rhanedig gyda 12 o'r 29 o ymatebion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd naw ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â’r cwestiwn.

Roedd wyth wedi nodi nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno neu heb roi ateb.

Cafwyd 13 o sylwadau ac anfonodd un ymatebydd gyfraniad nad oedd wedi'i deilwra i'r cwestiynau.

Dywedodd sawl ymatebydd y byddent yn hoffi gweld mwy o fanylion a chanllawiau ymarferol yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r nodiadau esboniadol. Roedd eraill wedi canmol symlrwydd ac eglurder y nodiadau.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Caiff mwy o wybodaeth ei chyhoeddi i helpu awdurdodau contractio a chontractwyr i roi'r cymalau hyn ar waith.

## 10. Y Gymraeg

**C10a:** Beth fyddai effeithiau tebygol y “cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol” enghreifftiol ar y Gymraeg yn eich barn chi? Hoffem glywed yn arbennig am unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 18 o sylwadau ac anfonodd un ymatebydd gyfraniad nad oedd wedi'i deilwra i'r cwestiynau.

Er nad oes unrhyw effaith negyddol debygol ar y Gymraeg, nododd ymatebwyr fod cyfle i sicrhau effaith gadarnhaol drwy annog contractwyr i gynyddu sgiliau Cymraeg eu gweithlu, er enghraifft, drwy gynnwys y Gymraeg yn eu cynlluniau cyflogaeth a hyfforddi a monitro cydymffurfedd. Nodwyd bod rhagor o gyfleoedd i fusnesau yng Nghymru yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Teimlai un ymatebydd y dylai fod cyfeiriad at y Gymraeg yn y cymalau a'r nodiadau esboniadol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr awgrymiadau y gellid annog contractwyr i ystyried sut y gall sgiliau Cymraeg gael eu datblygu yn eu gweithlu. Gan na chyfeirir at y Gymraeg yn Adran 27 o'r Ddeddf, mae cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei gynnwys yn y cymalau a'r nodyn esboniadol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried cyfleoedd i gryfhau'r effaith gadarnhaol y gall gweithgarwch caffael cyhoeddus ei chael ar y Gymraeg.

**C10b:** Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y "cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol" enghreifftiol er mwyn iddynt: gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Crynodeb o'r ymatebion**

Cafwyd 17 o sylwadau ac anfonodd un ymatebydd gyfraniad nad oedd wedi'i deilwra i'r cwestiynau.

Teimlai ymatebwyr yn gyffredinol nad oes fawr o opsiwn i ddiwygio'r cymalau i gael effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nodwyd y bydd y rhan fwyaf o awdurdodau contractio eisoes wedi ystyried sut mae safonau'r Gymraeg yn gymwys i gaffael ac wedi cynnwys hyn yn rheolau gweithdrefnol y contract. Teimlai eraill y gellid gwneud mwy i sicrhau bod y cymalau hyn yn cyfeirio at hyrwyddo'r Gymraeg, ond roedd eraill yn poeni y gallai hyn fod yn ofynnol i gontractwyr nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'n gadarnhaol bod y cymalau hyn yn adeiladu ar waith sy'n cael ei wneud eisoes gan awdurdodau contractio i fodloni safonau'r Gymraeg. Ni chynigir gwneud newidiadau i'r cymalau.

## <u>11. Arall</u>

**C10c:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

**Crynodeb o'r ymatebion**

Darparodd 12 o ymatebwyr sylwadau ac anfonodd un ymatebydd gyfraniad nad oedd wedi'i deilwra i'r cwestiynau

Ailadroddodd llawer o ymatebwyr eu pryderon am faich gweinyddol rheoli'r contractau hyn ac roeddent yn teimlo bod angen meddwl ymhellach am rai agweddau, yn enwedig sut y gallent gael eu cymhwyso i gontractau sy'n agos at y trothwy o £2m a sut y gallent gael eu cymhwyso gan is-gontractwyr llai. Gofynnwyd am ragor o ganllawiau ar gymesuredd a chanllawiau i fusnesau, yn ogystal â chyngor ar sut y caiff y cymalau hyn eu hymgorffori mewn cytundebau fframwaith presennol. Gofynnwyd am dempledi a hyfforddiant i BBaChau. Galwodd ymatebwyr am hyblygrwydd wrth roi'r cymalau ar waith, yn enwedig ar gyfer pecynnau gwaith bach neu fyrdymor.  Gofynnwyd cwestiynau am sut y byddai'r cymalau hyn yn rhyngweithio â fframweithiau a safonau eraill a gwnaed cais i fapio'r cymalau hyn i'r Safonau Asesu Cyffredin a methodolegau eraill, gan gynnwys TOMs. Awgrymwyd y dylid datblygu neu gefnogi adnoddau digidol presennol i hwyluso'r broses weithredu, a gofynnodd un ymatebydd am un system adrodd i Gymru gyfan.

Gofynnodd rhai ymatebwyr hefyd am ofynion monitro a gorfodi gwell, yn ogystal â mwy o fanylion am y broses hysbysiadau i awdurdodau contractio roi gwybod am achosion lle nad yw'r cymalau wedi cael eu cynnwys.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae ymatebion i lawer o'r pwyntiau a godwyd wedi derbyn sylw wrth ymateb i gwestiynau blaenorol uchod.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon sydd wedi cael eu codi drwy gydol yr ymgynghoriad ynghylch baich gweinyddol ychwanegol y Cymalau. Mae'r cymalau hyn yn adeiladu ar arferion da sydd ar waith mewn llawer o awdurdodau contractio yn barod a byddant yn sicrhau bod cadwyni cyflenwi caffael cyhoeddus yn gwelld llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Caiff mwy o wybodaeth, gan gynnwys Canllawiau Statudol, ei chyhoeddi i helpu awdurdodau contractio a chontractwyr i roi'r cymalau hyn ar waith.

## Y camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Gan mai crynodeb yw'r ddogfen hon, nid oedd modd ymdrin â'r holl faterion a godwyd yn yr ymatebion yn llawn, ond mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn ofalus. Caiff Cymalau Gweithiau Cyhoeddus Cymdeithasol Enghreifftiol Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) eu diwygio fel y nodwyd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad. Caiff materion eraill eu trafod mewn canllawiau statudol a gwybodaeth a gyhoeddir i gefnogi'r broses o roi'r cymalau ar waith.